Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

# Pecyn Cymorth Ymgyrch Wythnos Addysg Oedolion

## 15 - 21 Medi 2025

gyda gweithgaredd hyrwyddo drwy gydol y mis.

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Working Wales
#neverstoplearning

# Cynnwys pecyn cymorth ymgyrch Wythnos Addysg Oedolion


4 Am yr Wythnos Addysg Oedolion
5 Themâu Wythnos Addysg Oedolion
6 Rhestr wirio digwyddiadau yr Wythnos Addysg Oedolion
7 Wythnos Addysg Oedolion digwyddiadau ymgyrch
10 Logos, cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau digwyddiad
14 Gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol a thempledi
18 Ffurflenni adborth ymgyrch
20 Straeon sy'n ysbrydoli
22 Rhannu eich stori
23 Dewch â chyfaill
24 Cymru'n Gweithio Gwybodaeth
25 Cysylltu â ni


#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion



## Mae'r Wythnos Addysg Oedolion ar gyfer pawb

- Dathlu llwyddiannau pobl, prosiectau a sefydliadau.
- Mynediad i gyfleoedd dysgu wyneb ac wyneb ac ar-lein.
- Ceisio cyngor gyrfa ac arweiniad arbenigol.
- Codi proffil a buddion addysg oedolion.
- Ennill sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd.
- Hybu iechyd a llesiant.
- Cynyddu cyfranogiad mewn dysgu.
- Dod â diwylliant dysgu gydol oes ac ail gyfle i gawb.



*Gallwch ddefnyddio'r copi isod ar gyfer eich gwefan neu e-gylchlythyrau. Mae croeso i chi addasu'r copi i weddu i'ch cynulleidfa.*

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

# Darganfod cyfleoedd dysgu gydol oes ym mis Medi!

## Am yr ymgyrch:

**Caiff yr Wythnos Addysg Oedolion ei chydlynu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac fe'i cynhelir rhwng 15 - 21 Medi gyda gweithgaredd drwy gydol y mis.**

Bydd yr ymgyrch flynyddol yn ysbrydoli pobl ledled Cymru i ddarganfod cyfleoedd a llwybrau dysgu newydd. Bydd gwefan Wythnos Addysg Oedolion a Cymru'n Gweithio yn cynnwys adnoddau a channoedd o ddigwyddiadau a chyrsiau ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan roi sylw i straeon sy'n ysbrydoli am oedolion a fanteisiodd ar addysg oedolion a chyngor ac arweiniad arbenigol ar ailhyfforddi, Cyfrifon Dysgu Personol, gofal plant a dileu swyddi.

Mae partneriaid yr ymgyrch yn cydweithio gyda rhaglen o ddigwyddiadau maes a chyrsiau blasu i gynyddu cyfranogiad mewn addysg oedolion. Bydd gweithgaredd yr ymgyrch yn hybu hyder, iechyd a llesiant a chynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno newid swyddi, sicrhau cynnydd yn eu gwaith, mynediad i gyrsiau, cysylltu gyda phobl eraill a chael cyngor ac arweiniad.

Mae dysgu gydol oes yn trawsnewid bywydau, mae'n galluogi mwy o oedolion i symud ymlaen ac adeiladu dyfodol gwell.

Dewch o hyd i gyfleoedd newydd yr Wythnos Addysg Oedolion yma:
https://adultlearnersweek.wales/?lang=cy

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Wythnos Addysg Oedolion 2025
# Themâu'r ymgyrch

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

## Dydd Llun 15 Medi
## Lleisiau Dysgwyr

Mae straeon y dysgwyr presennol yn ysbrydoli eraill i ymuno. Rydym ni'n gwybod bod gan y gair llafar rôl bwerus wrth feithrin hyder eraill i ymgysylltu â dysgu ac mae gwrando ar brofiadau dysgwyr yn hanfodol wrth lunio darpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion. Meddyliwch am ffocws ar rannu straeon dysgwyr, gweithgarwch allgymorth dan arweiniad dysgwyr, digwyddiadau dod â ffrind a fforymau i ddysgwyr.

## Dydd Mawrth 16 Medi
## Cydweithio a Chysylltu

Mae Wythnos Addysg Oedolion yn ffynnu ar bartneriaeth – ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol. Mae'r addysg oedolion gorau wedi'i adeiladu ar gydweithio i alluogi llwybrau sy'n diwallu anghenion a dyheadau dysgwyr. Gallwn ni i gyd ddysgu o wahanol ddulliau ac mae'r arloesedd gorau yn aml yn cael ei wneud mewn cydweithrediad ag eraill. Defnyddiwch Wythnos Addysg Oedolion i ddathlu'r ymarfer ar y cyd rydych chi wedi'i ddatblygu – rhannwch eich straeon neu fanteisio ar y cyfle i archwilio sgyrsiau newydd i wneud cysylltiadau ehangach a dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu.

## Dydd Mercher 17 Medi
## Sgiliau ar gyfer Gwaith a Dilyniant

Mae mynediad at ddysgu yn y gwaith yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi pobl i symud ymlaen ac adeiladu eu sgiliau. Gall y gweithle fod yn borth i gyrraedd ac ymgysylltu â phobl drwy ddarpariaeth anffurfiol a ffurfiol. Meddyliwch am ddefnyddio'r diwrnod hwn i ganolbwyntio ar gyfleoedd i ddysgu yn y gwaith – sesiynau blasu a gweithdai, rhannu sgiliau a diwrnodau gwybodaeth. Mae arolygon a rhannu straeon llwyddiant yn ffordd wych o ddatblygu mwy o fewnwelediad i anghenion dysgu a dathlu llwyddiant!

## Dydd Iau 18 Medi
## Sgiliau Hanfodol

Mae llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol yn flociau adeiladu ar gyfer dysgu pellach ond hefyd yn hanfodol ar gyfer byw bywyd i'r eithaf neu symud ymlaen mewn gwaith. Rydym ni'n gwybod bod lefelau isel yn y sgiliau bywyd hyn yn gallu rhwystro hyder i gymdeithas ac os ydych chi'n rhiant – ym mywyd yr ysgol, mae'n dal llawer o bobl yn ôl rhag sicrhau swyddi da. Defnyddiwch y thema hon i ganolbwyntio ar hyrwyddo dosbarthiadau blasu, gwrando ar eich cymuned i lunio a chyd-gynhyrchu cwricwlwm a galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y gwaith o greu darpariaeth i ddiwallu eu hanghenion.

## Dydd Gwener 19 Medi
## Iechyd a Llesiant

Mae dysgu yn rhan hanfodol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd - mae'n arwain at fwy o hyder, yn cefnogi iechyd meddwl, yn adeiladu cyfalaf cymdeithasol ac yn darparu'r sgiliau i symud pobl i mewn i waith. Meddyliwch am ffocws ar weithgaredd dysgu sy'n cefnogi iechyd a lles, gweithgareddau anffurfiol a chreadigol. Gallech ddefnyddio'r thema hon i adeiladu mwy o gysylltiadau â gwasanaethau iechyd lleol a rhagnodwyr cymdeithasol ac archwilio gwell cyfleoedd ar gyfer cyfeirio ar draws gwasanaethau.

Rydym yn eich annog i ddefnyddio ein prif themâu i ysbrydoli eich gweithgareddau yn yr Wythnos Addysg Oedolion.
Mae croeso i chi hefyd gynllunio digwyddiadau unigryw sy'n gydnaws â'ch gweledigaeth, hyd yn oed ar ddyddiau gwahanol, felly cysylltwch i drafod eich cynlluniau: alwevents@learningandwork.org.uk.

# Rhestr wirio yr Wythnos Addysg Oedolion

## Cam cyntaf

- Ymestyn allan i bartneriaid newydd a phartneriaid presennol
- Trefnu cyfarfodydd cynllunio
- Ymchwilio syniadau ar gyfer yr Wythnos Addysg Oedolion
- Sefydlu rolau a chyfrifoldebau.
- Mapio cynllun i'ch helpu i aros ar y trywydd

## Sefydlu rhaglen digwyddiadau

- Gosod amser a dyddiad ar gyfer y digwyddiad
- Dewis lleoliad neu lwyfan ar-lein
- Dechrau gwneud ymholiadau ac archebion

## Meddwl am

- Gofynion hygyrchedd
- Ffurflenni caniatâd
- Diogelu

## Hyrwyddo eich digwyddiad

- Ychwanegwch ddigwyddiadau at galendr yr Wythnos Addysg Oedolion i fod yn rhan o ymgyrch amlgyfrwng Dysgu a Gwaith.
- Defnyddio'r adnoddau marchnata yn y pecyn cymorth yma i hyrwyddo/brandio eich digwyddiad
- Hyrwyddo eich digwyddiadau drwy e-bost, rhoi'r gair ar led a'r cyfryngau cymdeithasol a thagio Dysgu a Gwaith
- Ymestyn allan i'r cyfryngau cymdeithasol

## Yn ystod ac ar ôl y digwyddiad

- Dathlu a dangos eich digwyddiadau
- Rhannu ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol (tagio Dysgu a Gwaith)
- Dosbarthu ffurflenni adborth dysgwyr gyda'r sawl sy'n mynychu
- Rhannu eich adborth ymgyrch gyda Dysgu a Gwaith



#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Llwyfan yr Wythnos Addysg Oedolion

**Mae Dysgu a Gwaith yn galw ar holl ddarparwyr addysg oedolion i ymuno â'r rhwydwaith o bartneriaid ar gyfer yr Wythnos Addysg Oedolion. Caiff yr holl weithgareddau sydd wedi eu lanlwytho ar wefan yr ymgyrch eu hyrwyddo fel rhan o ymgyrch amlgyfrwng drwy gydol mis Medi ar wefan Cymru'n Gweithio.**

Y mathau o gynnwys dysgu AM DDIM y gellir ei ychwanegu at y platfform yw cyrsiau, digwyddiadau, dyddiau agored a sesiynau blasu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Dylai'r adnoddau hyn fod ar gael i ddysgwyr drwy gydol mis Medi. Gallwch hefyd ddefnyddio'r wefan i hyrwyddo gweithgaredd yn dilyn yr Wythnos Addysg Oedolion.

Edrychwch ar y cynnwys presennol sydd eisoes ar y llwyfan.



## Gall darparwyr gofrestru eu darpariaeth a lanlwytho eu gweithgareddau dysgu drwy wefan yr Wythnos Addysg Oedolion:

https://adultlearnersweek.wales

*Lawrlwythwch ein canllawiau cam-wrth-gam i'ch helpu i gofrestru eich gweithgareddau.*
*E-bost alwevents@learningandwork.org.uk os ydych angen unrhyw gymorth.*

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

# Gwefan yr Wythnos Addysg Oedolion: Cod QR

Oes gennych chi weithgareddau ar y gweill ar gyfer yr Wythnos Addysg Oedolion?
Mae'r cod QR hwn yn cysylltu'n uniongyrchol gyda gwefan yr Wythnos Addysg Oedolion, ein hyb canolog ar gyfer popeth yn ymwneud ag addysg oedolion. Rydym yn eich annog i gynnwys y cod QR yma ar eich holl ddeunyddiau hyrwyddo – taflenni, posteri, cyfathrebu digidol, a mwy.

Lansio'r camera: Agor yr ap Camera ar eich ffôn clyfar.

Canoli'r cod QR: Gosod eich ffôn fel bod yr holl god QR i'w weld yn ffrâm y camera.

Dal yn llonydd: Cadw eich ffôn yn llonydd fel y byd yn gallu adnabod y cod yn awtomatig.

Disgwyl neges: Edrych am faner neu hysbysiad gyda chynnwys y cod QR (e.e. dolen i wefan).

Gweld y cynnwys: Tapio'r hysbysiad i agor yr wybodaeth gysylltiedig.

bitly



# Categorïau pwnc

*Gofynnir i chi nodi fod y llwyfan Wythnos Addysg Oedolion yn defnyddio system o tri ar ddeg categori pwnc i chi dagio eich gweithgareddau. Y dilynol yw'r prif gategorïau y byddwn yn eu defnyddio i hyrwyddo'r Wythnos Addysg Oedolion.*



















#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Logos, adnoddau cyfryngau cymdeithasol a delweddau stoc

*Cliciwch ar y dolenni isod i lawrlwytho'r adnoddau o'r ffolder ar-lein sydd ar Google.*
*Dylid nodi efallai y gall y tîm ymgyrch ychwanegu mwy o adnoddau at y ffolder yma.*

**Delweddau/straeon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer X, Facebook, Instagram a LinkedIn**




**Lluniau stoc: Dysgu a Sgiliau**



**Logos ymgyrch a delweddau hashnod**

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Adnoddau digwyddiad Wythnos Addysg Oedolion

*Cliciwch ar y dolenni isod i lawrlwytho'r adnoddau o'r ffolder ar-lein sydd ar Google.*
*Dylid nodi efallai y gall y tîm ymgyrch ychwanegu mwy o adnoddau at y ffolder yma.*

**PDF Poster Templed Digwyddiad neu Gwrs Wythnos Addysg Oedolion**




**Fersiwn PNG a PDF Taflen Wythnos Addysg Oedolion**




---

**Dewiswch o ddau ddyluniad bynting y gellir eu hargraffu ar y ddwy dudalen nesaf i ychwanegu cyffyrddiad Nadoligaidd i'ch digwyddiadau.**

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

Torrwch ar hyd y llinell isod ac o amgylch y baneri.







Dewiswch pa fath o gynllun baneri yr hoffech eu defnyddio ac argraffu a thorri allan gynifer o ddalenni ag y dymunwch ar bapur neu gerdyn A4 neu A3, a thorri o amgylch siapiau'r baneri. Defnyddiwch ruban neu linyn a gludo neu styffylu'r tab i'w roi yn ei le. Rhowch eich baneri yn eu lle i addurno eich digwyddiad.

Torrwch ar hyd y llinell isod ac o amgylch y baneri.







Dewiswch pa fath o gynllun baneri yr hoffech eu defnyddio ac argraffu a thorri allan gynifer o ddalenni ag y dymunwch ar bapur neu gerdyn A4 neu A3, a thorri o amgylch siapiau'r baneri. Defnyddiwch ruban neu linyn a gludo neu styffylu'r tab i'w roi yn ei le. Rhowch eich baneri yn eu lle i addurno eich digwyddiad.

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

# Ymunwch â'r sgwrs ar y cyfryngau cymdeithasol

Dilynwch a thagiwch y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio ar gyfer eich digwyddiadau, gweithgareddau, straeon addysg oedolion, blogiau, erthyglau ac ymchwil. Helpwch ni i godi ymwybyddiaeth o werth dysgu gydol oes a dathlu'r gorau mewn addysg oedolion a sgiliau.

## Sefydliad Dysgu a Gwaith

- @learnworkcymru.bsky.social
- @Learning and Work Institute
- @LearnWorkCymru
- @learningandworkinstitute
- @learnworkcymru

## Cymru'n Gweithio

- @WorkingWales
- @WorkingWales
- @WorkingWales



**Defnyddiwch yr hashnodau dilynol:**

**#paidstopiodysgu**
**#wythnosaddysgoedolion**

# Awgrym ar gyfer negeseuon ar gyfer BlueSky ac X

*Gallwch addasu'r negeseuon isod i weddu eich cynulleidfa, cofiwch ychwanegu eich emojis a thagio'r Sefydliad Dysgu a Gwaith! Mae delweddau i gydfynd â'r negeseuon isod ar gael ar dudalen 9 neu mae croeso i chi ddefnyddio eich delweddau brand Wythnos Addysg Oedolion ar gael yma.*

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r @LearnWorkCymru a @CymrunGweithio ar gyfer #WythnosAddysgOedolion! Mae ein *(cyrsiau/digwyddiadau/adnoddau/rhaglen ddysgu)* yn awr yn fyw ar lwyfan yr ymgyrch. Dysgwch gyda ni: *(dolen i'ch digwyddiad ar y llwyfan*) #paidstopiodysgu

Gall addysg oedolion drawsnewid bywydau – gall wella iechyd a llesiant, arwain at gynnydd gyrfa a helpu i adeiladu cysylltiadau gwell. Dewch â chyfaill a dysgu sgil newydd. Ewch i: https://cymrungweithio.llyw.cymru/ #paidstopiodysgu

Mae #WythnosAddysgOedolion yma! Rydym ni'n credu mewn ail gyfleoedd ac nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu. Darganfyddwch fwy am weithgarwch ymgyrchu @LearnWorkCymru a @WorkingWales a chymryd rhan: Ewch i: workingwales.gov.wales/change-your-story/adult-learners-week #paidstopiodysgu

Rydym yn cyflwyno sesiwn fyw ar gyfer #WythnosAddysgOedolion mewn partneriaeth gyda @LearnWorkCymru a @CymruGweithio. Ymunwch â ni yn fyw ar *(amser/dyddiad)* i ddysgu am *(manylion)* *(dolen digwyddiad)* #paidstopiodysgu

Mae pob dydd yn dod â chyfleoedd newydd i ddysgu, os ydych angen ysbrydoliaeth i ddechrau arni - darllenwch straeon am bobl a newidiodd eu bywydau a dal ati i ddysgu: https://adultlearnersweek.wales/newid-dy-stori/?lang=cy Dechreuwch eich taith ddysgu heddiw: https://adultlearnersweek.wales/?lang=cy #paidstopiodysgu

Rydym ni'n falch o fod yn rhan o #WythnosAddysgOedolion i wneud Cymru yn genedl o ddysgwyr gydol oes. I ddathlu'r wythnos, gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith diweddaraf *(rhowch fanylion eich ymchwil/cyhoeddiad/blog/erthygl)* *(mewnosodwch eich dolen)* #paidstopiodysgu

*Ymunwch â sgwrs Wythnos Addysg Oedolion! Rhannwch a dilynwch bostiadau ar sianeli'r Sefydliad Dysgu a Gwaith drwy gydol mis Medi.*

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

# Awgrymiadau am negeseuon Facebook

*Gallwch addasu'r negeseuon isod i weddu eich cynulleidfa, cofiwch ychwanegu eich emojis a thagio'r Sefydliad Dysgu a Gwaith! Mae delweddau i gydfynd â'r negeseuon isod ar gael ar dudalen 9 neu mae croeso i chi ddefnyddio eich delweddau brand Wythnos Addysg Oedolion ar gael yma.*

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion! Mae ein *(cyrsiau/digwyddiadau/adnoddau/rhaglen ddysgu)* yn awr yn fyw ar lwyfan yr ymgyrch. Dysgwch gyda ni: *(dolen i'ch digwyddiad ar y llwyfan).*

Gall addysg oedolion drawsnewid bywydau – gall wella iechyd a llesiant, arwain at gynnydd gyrfa a helpu i adeiladu cysylltiadau gwell. Dewch â chyfaill a dysgu sgil newydd. Ewch i: https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/wythnos-addysg-oedolion

Mae Wythnos Addysg Oedolion yma! Rydym ni'n credu mewn ail gyfleoedd ac nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu. Darganfyddwch fwy am weithgarwch ymgyrchu @learningandworkinstitute a @WorkingWales a chymryd rhan: Ewch i: https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/wythnos-addysg-oedolion

Mae'n Wythnos Addysg Oedolion! Rydym wedi cyflwyno sesiwn fyw mewn partneriaeth gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio ar gyfer yr ymgyrch. Ymunwch â ni yn fyw ar *(amser/dyddiad)* i *(dysgu am/gael mwy o wybodaeth am) (manylion gweithgaredd a manylion sut i gael mynediad i'r gweithgaredd).*

Mae pob dydd yn dod â chyfleoedd newydd i ddysgu, os ydych angen ysbrydoliaeth i ddechrau arni - darllenwch straeon am bobl a newidiodd eu bywydau a dal ati i ddysgu:
https://adultlearnersweek.wales/newid-dy-stori/?lang=cy
Dechreuwch eich taith ddysgu heddiw:
https://adultlearnersweek.wales/?lang=cy

Rydym ni'n falch o fod yn rhan o Wythnos Addysg Oedolion i wneud Cymru yn genedl o ddysgwyr gydol oes. I ddathlu'r wythnos, gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith diweddaraf *(rhowch fanylion eich ymchwil/cyhoeddiad/blog/erthygl) (mewnosodwch eich dolen).*

*Ymunwch â sgwrs Wythnos Addysg Oedolion! Rhannwch a dilynwch bostiadau ar sianeli'r Sefydliad Dysgu a Gwaith drwy gydol mis Medi.*

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

# Awgrymiadau am negeseuon Instagram a LinkedIn

*Gallwch addasu'r negeseuon isod i weddu eich cynulleidfa, cofiwch ychwanegu eich emojis a thagio'r Sefydliad Dysgu a Gwaith! Mae delweddau i gydfynd â'r negeseuon isod ar gael ar dudalen 9 neu mae croeso i chi ddefnyddio eich delweddau brand Wythnos Addysg Oedolion ar gael yma.*

Rydym ni'n gyffrous i ymuno â Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio ar gyfer #WythnosAddysgOedolion y mis Medi hwn! Mae ein *(opsiwn mwyaf deniadol: cyrsiau /digwyddiadau/ adnoddau/ rhaglen ddysgu)* bellach yn fyw ar lwyfan yr ymgyrch. Dysgwch gyda ni: *(Rhowch ddolen eich digwyddiad ar y platfform)* #paidstopiodysgu

Gall addysg oedolion drawsnewid bywydau – gall wella iechyd a llesiant, arwain at gynnydd gyrfa a helpu i adeiladu cysylltiadau gwell. Dewch â chyfaill a dysgu sgil newydd. Ewch i: https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/wythnos-addysg-oedolion #wythnosaddysgoedolion #paidstopiodysgu

Mae #WythnosAddysgOedolion yma! Rydym ni'n credu mewn ail gyfleoedd ac nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu. Darganfyddwch fwy am weithgarwch ymgyrchu Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio a chymryd rhan: Ewch i: https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/wythnos-addysg-oedolion #paidstopiodysgu

Mae'n Wythnos Addysg Oedolion! Rydym wedi cyflwyno sesiwn fyw mewn partneriaeth gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio ar gyfer yr ymgyrch. Ymunwch â ni yn fyw ar (amser/dyddiad) i *(dysgu am/gael mwy o wybodaeth am) (manylion gweithgaredd a manylion sut i gael mynediad i'r gweithgaredd)*.

Mae pob dydd yn dod â chyfleoedd newydd i ddysgu, os ydych angen ysbrydoliaeth i ddechrau arni - darllenwch straeon am bobl a newidiodd eu bywydau a dal ati i ddysgu: https://adultlearnersweek.wales/newid-dy-stori/?lang=cy Dechreuwch eich taith ddysgu heddiw: https://adultlearnersweek.wales/?lang=cy #paidstopiodysgu

Rydym ni'n falch o fod yn rhan o Wythnos Addysg Oedolion i wneud Cymru yn genedl o ddysgwyr gydol oes. I ddathlu'r wythnos, gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith diweddaraf *(rhowch fanylion eich ymchwil/cyhoeddiad/blog/erthygl) (mewnosodwch eich dolen)*. #paidstopiodysgu

*Ymunwch â sgwrs Wythnos Addysg Oedolion! Rhannwch a dilynwch bostiadau ar sianeli'r Sefydliad Dysgu a Gwaith drwy gydol mis Medi.*

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

# Mae eich adborth yn bwysig i ni

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

**Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a Llywodraeth Cymru yn falch i weithio gydag ystod eang o bartneriaid ar gyfer yr ymgyrch, a dyna pam ein bod eisiau clywed gan bob sefydliad a gymerodd ran yn yr Wythnos Addysg Oedolion (drwy gydol mis Medi). Bydd eich adborth yn ein helpu i werthuso'r Wythnos Addysg Oedolion fel y gallwn wella ac adeiladu ar ymgyrchoedd y dyfodol.**

Os yw'ch sefydliad yn cyflwyno digwyddiadau, sesiynau blasu, cyrsiau neu wedi cynnig adnoddau dysgu ar gyfer yr Wythnos Addysg Oedolion, llenwch ein ffurflen adborth os gwelwch yn dda gan ddefnyddio'r dolenni ar-lein a roddir isod.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi adborth gan ddysgwyr a fu mewn digwyddiad neu ar gwrs yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion ym mis Medi. Os dymunwch argraffu'r fersiynau electronig, cliciwch yma.

- **Gwerthusiad Partner Ymgyrch – ffurflen ar-lein**
- **Adborth Dysgwyr – ffurflen ar-lein**



***Neu gofynnwch i'r sawl sy'n mynychu'r digwyddiad i roi eu sylwadau ac adborth drwy argraffu'r cod QR ar y dudalen nesaf.***

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

# Mae eich adborth yn bwysig i ni
# Adborth Dysgwyr – cod QR

Ydych chi wedi bod mewn digwyddiad Wythnos Addysg Oedolion? Sganiwch eich cod QR i roi eich adborth.

Byddem wrth ein bodd yn clywed am eich profiad!

Lansio'r camera: Agor yr ap Camera ar eich ffôn clyfar.

Canoli'r cod QR: Gosod eich ffôn fel bod yr holl god QR i'w weld yn ffrâm y camera.

Dal yn llonydd: Cadw eich ffôn yn llonydd fel y byd yn gallu adnabod y cod yn awtomatig.

Disgwyl neges: Edrych am faner neu hysbysiad gyda chynnwys y cod QR (e.e. dolen i wefan).

Gweld y cynnwys: Tapio'r hysbysiad i agor yr wybodaeth gysylltiedig.



#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Straeon sy'n ysbrydoli



"Rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi ei gyflawni. Mae wedi cynyddu fy hunan-hyder a ffocws – ac yn bwysicaf oll wedi rhoi ffrindiau newydd i fi. Am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, rwy'n cymdeithasu ac yn mwynhau fy mywyd. Mae gen i basport; rwy'n helpu i redeg clwb llyfrau ac yn rhan o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon newydd yr ysgol. Mae'n teimlo fel bod fy mywyd wedi dechrau." **Lucy Willis**



"Rwy'n cael llawer o bleser wrth siarad gyda phobl eraill a'u hysbrydoli. Y peth pwysicaf un am fy stori yw faint rwyf wedi mwynhau dysgu. Mae addysg yn antur; pan ydych yn camu lawr y llwybr hwnnw wyddoch chi byth lle bydd yn mynd â chi"- **John Gates**



"Rwy'n credu fod dysgu yn ymdrech gydol oes. Mae cymaint allan yna nad ydyn ni'n ei wybod a gall fod yn llwybr ar gyfer hapusrwydd go iawn a chysylltiad gyda phwy ydyn ni mewn gwirionedd. Mae ehangu'r meddwl yn hollbwysig ar gyfer hyn. Rwyf wedi medru mwynhau rhagolygon swydd newydd a chwrdd â phobl wych"
– **Tom Dyer**



"Rwyf wedi bod yn rhan o grŵp Dynion o'r cychwyn cyntaf, ac wrth fy modd yno. Rwy'n gallu darllen ac ysgrifennu nawr, ac mae gen I swydd gyda'r grŵp."- **Aelod Grŵp Dynion Pobl yn Gyntaf y Fro**

**Rhannwch straeon o lwyddiannau i ddangos y buddion newid-bywyd y gall addysg oedolion eu rhoi.**

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Straeon sy'n ysbrydoli



"Mae addysg yn newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd y gwelwn ein hunain, mae'n cynyddu ein hyder a'n hunandyb ac yn agor drysau newydd. Gall addysg roi'r sgiliau rydym eu hangen i gael ein hunain allan o'r rhigol y gallem fod ynddi ac yn ôl ar y llwybr i ddyfodol mwy disglair." - **Scott Jenkinson**



"Fe hoffwn i annog pobl eraill i ddychwelyd i ddysgu a chyrraedd eu nod, pa bynnag faint o her y gall hynny ymddangos. Fy nghyngor yw gweithio'n galed a dal ati. Nid oes dim byd yn amhosibl os ydych yn benderfynol. Rwy'n edrych ymlaen at weld i ble yr aiff fy nhaith â fi wrth i mi barhau i wneud fy ffordd tuag at fy nodau a gwneud gwahaniaeth yn fy nghymuned." - **Walid Musa Albuqai**



"Pe byddai fy athrawon wedi credu ynddo i a pheidio fy nhrin fel plentyn 'drwg'. Wnes i erioed ddychmygu y gallai bywyd fod fel hyn. Cefais fy siomi gan addysg y tro cyntaf, ond mor falch i mi gael ail gyfle." - **John Spence**



"Fe wnes ddechrau gweld fod fy anabledd corfforl a phroblemau iechyd meddwl yn llai o rwystr ac yn fwy o sbardun i brofi y gallech gyflawni unrhyw beth. Mae addysg wedi rhoi rheolaeth o fy mywyd yn ôl i fi, mae fy stori yn profi os ydych yn ddewr ac yn benderfynol ei bod yn bosibl llwyddo mewn unrhyw beth." - **Catrin Pugh**

**Darllenwch fwy o straeon i ysbrydoli am bobl sydd wedi goresgyn rhwystrau drwy addysg ar ein platfform ymgyrch.**

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Gall eich stori rymuso eraill i gymryd ail gyfle

**Rhannwch eich stori yn defnyddio'r awgrymiadau islaw a hashnodau #paidstopiodysgu ac #wythnosaddysgoedolion**

- Pa lwybrau wnaethoch chi eu dilyn i fynd i'ch gyrfa bresennol neu addysg?
- Sut mae dysgu wedi effeithio ar eich bywyd a beth fyddech chi'n ei ddweud wrth bobl eraill sy'n meddwl am fynd ati i ddysgu?
- Pe byddech yn cael ail gyfle mewn addysg, beth fyddech chi'n ei ddysgu?

**Cofiwch dagio'r Sefydliad Dysgu a Gwaith a Cymru'n Gweithio yn eich negeseuon yn defnyddio'r dolenni isod:**

## Sefydliad Dysgu a Gwaith

@learnworkcymru.bsky.social
@Learning and Work Institute
@LearnWorkCymru
@learningandworkinstitute
@learnworkcymru

## Cymru'n Gweithio

@WorkingWales
@WorkingWales
@WorkingWales

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion

# Dewch â chyfaill gyda chi a dysgu sgiliau newydd gyda'ch gilydd

Wythnos Addysg Oedolion
Adult Learners' Week

**Gwyddom y gall argymhellion personol wneud gwahaniaeth mawr wrth gefnogi pobl yn ôl i ddysgu.Os ydych eisoes yn ymwneud â dysgu, rhowch yr hyder i'ch rhwydweithiau, ffrindiau a theulu i roi cynnig arni hefyd, ac ysbrydoli eraill i ddod draw i ddigwyddiad yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion ym mis Medi.**

P'un ai ydych yn ddysgwr brwd neu y bu cryn dipyn o amser ers i chi gymryd rhan mewn unrhyw fath o ddysgu, nid yw'n rhaid i chi ei wneud ar eich pen eich hun! Mae'r Wythnos Addysg Oedolion yn gyfle gwych i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i ddysgu sgiliau newydd, darganfod hobi newydd neu ddatblygu eich hyder mewn amgylchedd cefnogol. Cofrestrwch ar gyfer gweithgaredd dysgu ar wefan yr Wythnos Addysg Oedolion a gwahodd ffrind i ddod gyda chi.

**Byddai'r Sefydliad Dysgu a Gwaith wrth eich bodd yn eich gweld yn cymryd rhan mewn dysgu. Os ydych ar y cyfryngau cymdeithasol, cofiwch ein tagio yn defnyddio'r hashnodau: #paidstopiodysgu ac #wythnosaddysgoedolion.**



## Sefydliad Dysgu a Gwaith

- @learnworkcymru.bsky.social
- @Learning and Work Institute
- @LearnWorkCymru
- @learningandworkinstitute
- @learnworkcymru

## Cymru'n Gweithio

- @WorkingWales
- @WorkingWales
- @WorkingWales

**#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion**

# Am Cymru’n Gweithio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Dysgu sgiliau newydd a dechrau’r bennod nesaf

Beth bynnag yw dy sefyllfa, os wyt ti’n awyddus i ddysgu sgil newydd, byddwn ni’n dy helpu di I ystyried dy opsiynau gyda chyngor diduedd am ddim ar y rhaglenni hyfforddi a all dy helpu di i newid dy stori.

**Cymru’n Gweithio**
**#paidstopiodysgu**

Mae Cymru’n Gweithio, a gyflwynir gan Gyrfa Cymru ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer unrhyw un dros 16 oed ar draws Cymru i gael mynediad i gyngor ac arweinaid arbemnigol. Mae hyn yn cynnwys help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, paratoi ar gyfer cyfweliad, canfod lleoliad gwaith, dysgu sgiliau newydd, deall hawliau os caiff swydd dileu, cymorth gofal plant, meithrin hunanhyder. Mae’r Sefydliad Dysgu a Gwaith y Cymru’n Gweithio yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo’r Wythnos Addysg Oedolion a chyfeirio at fwy o wybodaeth am gyfleoedd addysg oedolion yng Nghymru.

**Dilynwch Cymru’n Gweithio ar y cyfryngau cymdeithasol:**

- Gwefan Cymru’n - Gweithio
- X (gynt Twitter) Cymru’n Gweithio
- Facebook - Cymru’n Gweithio
- Instagram - Cymru’n Gweithio

#paidstopiodysgu #wythnosaddysgoedolion



**Cysylltwch â ni:**
**E-bost ymholiadau ymgyrch:** alwevents@learningandwork.org.uk
**Gwefan Cymru'n Gweithio:** https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/wythnos-addysg-oedolion
**Gwefan Wythnnos Addysg Oedolion:** https://adultlearnersweek.wales/?lang=cy
**Gwefan Sefydliad Dysgu a Gwaith:** https://www.sefydliaddysguagwaith.cymru/




## #paidstopiodysgu

Caiff yr Wythnos Addysg Oedolion a Gwobrau Ysbrydoli! eu cydlynu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a chefnogwyr eraill yn cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgolion Cymru, Agored Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymreg Genedlaethol, Addysg Oedolion Cymru a Grŵp Cymwysterau ac Asesu AIM.

The Open University Y Brifysgol Agored Wales Cymru
Prifysgolion Cymru Universities Wales
Agored Cymru
Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh
AIM Qualifications and Assessment Group
D&G SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH LEARNING AND WORK INSTITUTE L&W
Gyrfa Cymru Careers Wales
Working Wales #neverstoplearning
Llywodraeth Cymru Welsh Government